



Teitl:	Rheolwr Cartref Preswyl i Blant
Lleoliad:	Cartref Preswyl i Blant
Cyfarwyddiaeth:	Gwasanaethau Cymdeithasol
Rhif y Swydd:	BG new
Cyflog:	Gradd 10 (£47,420 - £50,512 pro rata/y flwyddyn)
Oriau:	37 awr (gall gynnwys gyda'r nos ac ar benwythnosau)
Contract:	Parhaol

Crynodeb o'r Swydd

Llunio Dyfodol Gwasanaethau Plant ym Mlaenau Gwent!

Ymunwch â ni wrth i ni lansio'r cartref preswyl i blant cyntaf erioed yr Awdurdod Lleol ym Mlaenau Gwent a gosod safonau newydd o ragoriaeth mewn gofal plant. Rydym yn chwilio am Reolwr Tîm angerddol i arwain y gwasanaeth newydd hwn, gan gael effaith barhaol ar fywydau plant yn ein cymuned. Ydych chi'n barod i fod yn rhan o hanes a chreu rhywbeth hynod? Gwnewch gais nawr a byddwch yn sbardun i newid cadarnhaol.

Ynghylch y rôl

Fel Rheolwr y Tîm, byddwch yn chwarae rhan ganolog wrth lunio diwylliant a gweithrediadau ein cartref preswyl newydd i blant ym Mlaenau Gwent. Byddwch yn arwain ac yn ysbrydoli tîm ymroddedig o staff preswyl, gan feithrin diwylliant o gydweithio, parch a rhagoriaeth. Bydd eich cyfrifoldebau yn cwmpasu ystod eang o feysydd, i gyd yn canolbwyntio ar sicrhau lles, diogelwch a datblygiad cadarnhaol y plant yn ein gofal.

Bydd eich arddull arwain yn allweddol i greu amgylchedd lle mae pob plentyn yn teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi, ei gefnogi a'i rymuso. Byddwch yn gweithio'n agos gyda'ch tîm i roi arferion gorau ar waith mewn gofal preswyl, gan ymgorffori dulliau arloesol a chael y wybodaeth ddiweddaraf am safonau diwydiant sy'n esblygu.

Mae eich rôl yn ymestyn y tu hwnt i ddyletswyddau rheoli i fod yn fentor, yn eiriolwr ac yn fodel rôl ar gyfer eich tîm. Byddwch yn dyfeisio ac yn gweithredu cynlluniau hyfforddiant staff i sicrhau bod holl aelodau'r tîm wedi'u cyfarparu'n dda, yn gymwys ac yn llawn cymhelliant i fodloni safonau gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer datblygu gyrfa, darparu cymorth parhaus, a meithrin diwylliant o ddysgu a thwf o fewn y tîm.

Bydd cydweithredu a chyfathrebu wrth wraidd eich dull gweithredu. Byddwch yn ymgysylltu ag asiantaethau partner, cymunedau lleol, a rhanddeiliaid i feithrin perthnasoedd ystyrlon a gwella'r rhwydwaith cymorth sydd ar gael i'r plant yn ein gofal. Bydd arwain a chymryd rhan mewn amrywiol gyfarfodydd, ymchwiliadau ac adolygiadau yn rhan o'ch cyfrifoldebau rheolaidd, gan sicrhau tryloywder, atebolrwydd, a gwelliant parhaus ar draws pob agwedd ar weithrediadau'r cartref.

Bydd eich ymrwymiad i lesiant a chanlyniadau cadarnhaol plant a phobl ifanc yn llywio pob agwedd ar eich gwaith. Trwy hyrwyddo ymagwedd ragweithiol sy'n seiliedig ar gryfderau, sy'n unigolyddol, byddwch yn cyfrannu at greu amgylchedd diogel, meithringar a chyfoethog lle gall pob plentyn ffynnu a chyrraedd ei lawn botensial.

Amdanoch chi

Rydych yn unigolyn ymroddedig ac angerddol gydag ymrwymiad cryf i les a diogelu plant. Mae eich profiad helaeth a'ch arbenigedd mewn lleoliadau gofal preswyl yn eich gwneud yn ddelfrydol ar gyfer y rôl hon. Mae gennych ddealltwriaeth ddofn o'r heriau a'r cyfleoedd unigryw wrth gefnogi pobl ifanc wrth iddynt drosglwyddo o wasanaethau plant i fywyd fel oedolyn. Nodweddir eich arddull arwain gan empathi, gwydnwch, ac ymagwedd ragweithiol at ddatrys problemau. Rydych chi'n rhagori wrth greu amgylchedd cynnes a chroesawgar lle mae plant yn teimlo'n ddiogel, yn cael eu gwerthfawrogi, ac wedi'u grymuso i fynegi eu hunain. Mae eich gallu i feithrin ymddiriedaeth a chydberthynas ag aelodau'ch tîm a'r plant yn eich gofal yn hanfodol i'ch llwyddiant.

Rydych chi'n rhywun sy'n deall bod tŷ yn fwy nag adeilad yn unig - mae'n gartref lle mae perthnasoedd yn cael eu meithrin, a phrofiadau cadarnhaol yn cael eu creu. Mae eich ymroddiad i ragoriaeth, eich gallu i ysbrydoli ac ysgogi eraill, a'ch angerdd gwirioneddol dros greu newid cadarnhaol yn eich gwneud yn ymgeisydd delfrydol ar gyfer y rôl hon.

Amdanom ni

Ym Mlaenau Gwent, rydym yn chwyldroi ein hymagwedd at wasanaethau plant, ac mae ein cartref preswyl newydd yn dyst i'n hymroddiad i ofal o'r radd flaenaf sydd wedi'i wreiddio yn ein cymuned leol. Gydag arweinyddiaeth gref, prosesau symlach, a ffocws ar ddysgu a thwf parhaus, rydym yn blaenoriaethu boddhad ac effeithiolrwydd staff. Mae ymuno â'n tîm yn golygu camu i amgylchedd croesawgar a chynhwysol lle mae eich datblygiad personol a phroffesiynol yn ganolog. Rydym wedi ymrwymo i feithrin diwylliant cefnogol sy'n caniatáu digon o gyfleoedd twf a chydbwysedd iach rhwng bywyd a gwaith.

Dyma ychydig o'r hyn rydym yn ei gynnig:

- Cyflog cystadleuol
- Cynlluniau pensiwn llywodraeth leol rhagorol
- Hyfforddiant parhaus a mentrau datblygiad proffesiynol
- Lwfansau gwyliau blynyddol ac arbennig hael

Yn barod i fod yn rhan o dîm sy'n gwerthfawrogi eich twf a'ch lles? Ymunwch â ni ym Mlaenau Gwent a byddwch yn rhan o'n taith drawsnewidiol – Gwnewch gais nawr!

Eisiau gofyn cwestiwn i ni?

Os hoffech gael trafodaeth anffurfiol, cysylltwch â:

Beth Thomas | Beth.Thomas@blaenau-gwent.gov.uk | (01495) 356027

Cynhelir camau gwirio cyn cyflogi trwyadl yn ystod y broses recriwtio. Bydd gofyn i'r deiliad swydd gwblhau cais am Ddatgeliad o Gofnodion Troseddol.

Rydym yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg, llenwch Ffurflen Gais Swyddi Cymraeg.

Dyddiad Cau: 27/06/2024 – 12:00am, hanner nos

Dyddiad Cyfweliad: 12/07/2024